**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
–
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Vikki Howells AS
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

10 Chwefror 2025

Annwyl Vikki,

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

Yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2025, trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad ar Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (Rheoliadau 2025).

Fel y gwyddoch, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud cywiriadau technegol i wallau a nodwyd yn ystod ein gwaith craffu ar Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023 (Rheoliadau 2023). Yn ein hadroddiad ar Reoliadau 2025, byddwch yn ymwybodol inni nodi'r paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae Rheoliadau 2025 yn gwneud cywiriadau technegol i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018, mewn cysylltiad â diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau hynny gan Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023 yr adroddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad arnynt (mae SL(6)431 yn cyfeirio at hyn)."*

Byddwch hefyd yn ymwybodol bod adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 (Rheoliadau 2024) yn codi materion tebyg yn deillio o'r gwall hanesyddol a nodwyd gyntaf yng ngwaith craffu'r Pwyllgor ar Reoliadau 2023.

O'r herwydd, gwnaethom ofyn yn ein hadroddiad ar Reoliadau 2025 a allai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r materion a oedd yn deillio o Reoliadau 2024 yn cael sylw yn Rheoliadau 2025 ac, os oedd cywiriadau'n cael eu gwneud, pam nad oedd cyfeiriad atynt yn y Memorandwm Esboniadol. Gwnaethom ofyn a fyddai modd, os nad oedd unrhyw gywiriadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i'n hystyriaeth o Reoliadau 2024, inni gael y rhesymau dros hynny.

Mewn ymateb, dywedwyd wrth y Pwyllgor:

> *"Nodwn adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024. Nid yw'r materion sy'n codi o Reoliadau 2024 wedi cael sylw yn y Rheoliadau hyn oherwydd, ar yr adeg y daeth adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau 2024 i law, nid oedd digon o amser i gynnwys y cywiriadau angenrheidiol heb fethu dyddiad dod i rym y Rheoliadau hyn. Bydd y cywiriadau angenrheidiol sy'n ymwneud â Rheoliadau 2024 yn cael eu cynnwys yn yr offeryn priodol nesaf, y bwriedir ei wneud ym mis Chwefror 2025."*

Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau 2024 ar 9 Medi 2024, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai diwygiadau'n cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r materion a oedd wedi deillio o'r gwall hanesyddol. Gosodwyd Rheoliadau presennol 2025 ar 8 Ionawr eleni, a'r dyddiadau dod i rym yw 3 Chwefror 2025 a 6 Ebrill 2025. O'r herwydd, nid yw'n glir i'r Pwyllgor pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd ganddi ddigon o amser i wneud y cywiriadau. Cytunodd y Pwyllgor y dylem geisio eglurder ynghylch beth yn ystod y pedwar mis rhwng mis Medi diwethaf a mis Ionawr eleni a allai fod wedi atal Rheoliadau 2025 rhag hefyd unioni'r gwallau tebyg a nodwyd gan y Pwyllgor yn Rheoliadau 2024.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 24 Chwefror 2025.

Yn gywir,



Mike Hedges
Cadeirydd